# Panel Heddlu a Throseddu De Cymru

### ADRODDIAD AR ADRODDIAD BLYNYDDOL COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DE CYMRU AR GYFER 2019-20

## Cefndir

Mae'r adroddiad hwn yn cael ei wneud yn unol â chyfrifoldeb statudol Panel Heddlu a Throseddu De Cymru ('PHaThDC') fel sy'n cael ei nodi ym mharagraff 28(4) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 ('y Ddeddf.')

Mae'r Ddeddf yn nodi bod rhaid i Banel Heddlu a Throseddu -

(a) drefnu cyfarfod cyhoeddus o'r panel a'i gynnal cyn gynted ag y sydd yn ymarferol bosibl wedi i'r panel dderbyn adroddiad blynyddol, o dan adran 12,
(b) gofyn cwestiynau i'r heddlu a'r comisiynydd, yn y cyfarfod hwnnw ynghylch yr adroddiad blynyddol yn unol â'r hyn y mae aelodau'r panel yn teimlo sy'n addas,
(c) adolygu'r adroddiad blynyddol, a
(d) gwneud adroddiad neu argymhellion ar yr adroddiad blynyddol i'r comisiynydd

## Adolygiad o Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru ar gyfer 2018-19

Ar 7 Medi 2020, hysbysodd y Comisiynydd PHaThDC o Adroddiad Blynyddol 2019 – 20.

Cyfarfu PHaThDC ar 15 Medi 2020 er mwyn adolygu Adroddiad Blynyddol 2019 - 20 a'i ystyried a gwneud argymhellion (os oedd angen.)

## Adroddiad

Rhoddodd PHaThDC ystyriaeth i'r Adroddiad Blynyddol a phenderfynwyd y dylid cytuno ar gynnwys yr Adroddiad, heb wneud argymhellion.

*Cynghorydd Richard Young*

Cadeirydd PHaThDC

15 Medi 2020